# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd A Thrafniaeth

## EDT2 07-05 (p4)

Dyddiad: 26 Mai 2005
Amser: 9.30 - 12:30
Lleoliad: Ty Ladywell, Y Drenewydd
Teitl: Economi Canolbarth Cymru, a datblygiadau diweddar yn Nyffryn Hafren

### Pwrpas

1. Mae’r papur hwn yn gwahodd sylwadau’r Pwyllgor ar economi Canolbarth Cymru, gan gyfeirio’n arbennig at ddatblygiadau diweddar ac effeithiau yn y sector gweithgynhyrchu yn Nyffryn Hafren.

### Cefndir

2. Mae Canolbarth Cymru yn cynnwys Awdurdodau Unedol Powys a Cheredigion, yn ogystal â Sir Feirionnydd yng Ngwynedd. Mae’n cynnwys 40% o arwynebedd tir Cymru gyda phoblogaeth o ychydig dros 233,000, neu 8% o gyfanswm Cymru. Mae ganddo felly un o’r dwyseddau poblogaeth isaf yn Ewrop.

3. Mae’r ardal yn dioddef o bellenigrwydd gwirioneddol a tybiedig. Dim ond ochrau dwyreiniol Powys sydd â mynediad rhesymol i rwydwaith traffyrdd y Deyrnas Gyfunol. Mae’r ffaith mai Powys sydd â’r lefel uchaf o berchnogaeth ceir yng Nghymru yn dweud mwy am sut y caiff y rhan fwyaf o deithiau eu gwneud yn y Canolbarth nag am ei gyfoeth cymharol.

4. Dangosir pa mor ddwfn yw natur wledig yr ardal yn y gyfran uchel o bobl hunangyflogedig, yn arbennig mewn amaethyddiaeth a thwristiaeth. Mae hunangyflogaeth yn y Canolbarth yn ffurfio 24.3% o’r boblogaeth oedran gwaith mewn cyflogaeth, yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru o 11.9%.

5. Mae gan y rhanbarth economi diweithdra isel ond hefyd economi cyflog isel. Mae ganddo gyfradd anweithgaredd economaidd o 23.5%, sy’n cymharu’n ffafriol gyda chyfartaledd Cymru (26.3%) ond sy’n cuddio amrywiad mawr; Powys (18.4%), Ceredigion (31.1%). Mae gan yr economi elfen uchel o gyflogaeth sector preifat a sector amaethyddol mewn trafferthion. Y canlyniad yw gweithgaredd sector preifat isel a chynhyrchiant isel fel y’i mesurir mewn GDP y pen.

6. Yn ogystal â chefnogi busnesau cynhenid, bu Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) a’i ragflaenydd, Bwrdd Datblygu Cymru Wledig, yn hyrwyddo’r Canolbarth fel lleoliad posibl ar gyfer ehangu busnesau gweithgynhyrchu am dros 20 mlynedd. I raddau helaeth am resymau logistaidd, bu Dyffryn Hafren yn

Sir Drefaldwyn yn neilltuol o lwyddiannus wrth ddenu mewnfuddsoddiad, o rannau eraill y DG a hefyd o dramor.

## Dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau

| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
|---|---|
| Amgylchedd ansawdd uchel<br><br>Ansawdd uchel o fywyd<br><br>Cyfalaf cymdeithasol cryf<br><br>Sector gweithgynhyrchu amrywiol<br><br>Gweithlu teyrngar a hyblyg<br><br>Caffaeliad addysgol uchel<br><br>Cynnyrch twristiaeth cryf | Seilwaith TGCh a Thrafnidiaeth gwael<br><br>Prinder llafur a sgiliau<br><br>Cynhyrchiant ac incwm isel<br><br>Cost uchel darpariaeth gwasanaeth<br><br>Sectorau gostyngol yn yr economi<br><br>Dwysedd poblogaeth isel<br><br>Delwedd a chanfyddiad<br><br>Diffyg arweinyddiaeth gymunedol |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| Ymestyn band eang a TGCh<br><br>Ehangu sectorau busnes yn gyson ag economi gwledig<br><br>Ffocws ar ‘fothau strategol’<br><br>Datblygu addysg bellach/addysg uwch a throsglwyddo technoleg<br><br>Potensial mwyaf i gadw a denu gweithlu sgilgar/ entrepreneuriaid<br><br>Diogelu a hyrwyddo ansawdd amgylchedd i hyrwyddo ansawdd bywyd | Diwygio Polisi Amaethyddol Cyffredin ac ehangu’r Undeb Ewropeaidd<br><br>Allfudiad pobl ifanc a phobl gyda chymwysterau<br><br>Diffyg tai fforddiadwy<br><br>Effeithiau pellach globaleiddio<br><br>Anghydbwysedd demograffaidd<br><br>Allgauedd cymdeithasol ac erydu cyfalaf cymdeithasol<br><br>Diffyg buddsoddiad yn y seilwaith |

| | |
|---|---|
| Datblygiad seilwaith targedig<br><br>Cyfleoedd amddiffyn unigryw i ddatblygu sector UAV | |

## Datblygiadau Diweddar yn Nyffryn Hafren

7. Bu sawl cyhoeddiad yn y ddwy flynedd ddiwethaf am golledion swyddi sylweddol yn Nyffryn Hafren, Sir Drefaldwyn. Y colledion mwyaf sylweddol yw: Laura Ashley -100, Cityfax – 35,

Elliott Group - 70, Trelleborg - 70, Fishercast - 12, a Floform - 21. Mae hyn yn gyfanswm o 308 swydd. Mae hyn yn ffigur sylweddol ac yn ymyriad sylweddol ar fywydau'r unigolion dan sylw. Pryd bynnag y cyhoeddir fod busnes yn cau neu'n crebachu, mae'r WDA bob amser yn gweithio gyda'i bartneriaid yn ELWa a'r Canolfannau Gwaith i leihau'r ymyriad drwy gyngor, cyfeirio, ailhyfforddi ac yn gyffredinol ddilyn pob llwybr a fydd yn galluogi'r rhai yr effeithiwyd arnynt i fynd yn ôl i'r gwaith mor gyflym ac mor ddi-boen ag sydd modd.

8. Er y medrir cysylltu rhai colledion swyddi gydag achosion cenedlaethol cyffredin, megis cystadleuaeth o Asia neu Ddwyrain Ewrop, mae rhesymau unigol yn aml am gau safleoedd neu grebachu, rhai ohonynt yn aml yn fwy cymhleth nag a bortreadir yn y cyfryngau. Yn achos Laura Ashley, er enghraifft, roedd y colledion swyddi yn ganlyniad rhesymoli fel canlyniad penderfyniad i fuddsoddi'n helaeth mewn technoleg argraffu digidol ar gyfer eu deunyddiau. Maent angen hyn ar gyfer goroesi, a bydd hefyd yn arwain at uwchsgilio'r gweithlu, ac yn wir ers eu cyhoeddiad fis Rhagfyr diwethaf bu'r cwmni yn hysbysebu'n gyson i recriwtio ar gyfer swyddi arbenigol yn ogystal ag ar gyfer gwniadwyr.

9. Hefyd cyhoeddodd cwmnïau eu bod yn ehangu, gan helpu i liniaru poen diswyddiadau. Mewn un wythnos ym mis Mawrth, cyhoeddodd dau gwmni o'r Trallwng, SPX Contech o'r Unol Daleithiau a Wipak (UK) Cyf o'r Ffindir, fuddsoddiadau yn gyfanswm o bron £10 miliwn, yn creu tua 50 swydd yn y tymor canol. Yn gynharach eleni, ehangodd cwmnïau gweithgynhyrchu lleol o Dyffryn Hafren sef Newmor ac Invertek i gyfleusterau newydd, gan greu 60 swydd ychwanegol yn y tymor canol.

10. Mewn cysylltiad gyda'r Cynulliad, mae'r WDA hefyd yn dod â safleoedd newydd i Ddyffryn Hafren ar gyfer cenhedlaeth newydd o fusnesau bach a chanolig. Dechreuodd gwaith ar Gam 1 (ffordd ddynesu a seilwaith) ac ailddatblygu cyn safle KTH yn Llandrindod. Ar ôl ei orffen bydd y safle hwn yn cynnig cyfuniad o unedau cynhyrchu a swyddfa a fydd yn annog twf busnesau bach ac yn rhoi adeiladau ar gyfer busnesau newydd. Dangosir y bydd angen adeiladau o'r fath gan y ffigurau diweddaraf o ganolfan Llygad Busnes yn y Trallwng, sy'n gwasanaethu Dyffryn Hafren. Hyd y flwyddyn yn gorffen Mawrth 05, roedd 1,395 o unigolion wedi defnyddio'r gwasanaeth, sy'n ddangosydd iach o gyflwr entrepreneuriaeth yn Sir Drefaldwyn.

11. Heb wadu am eiliad yr anawsterau sy’n wynebu unrhyw unigolyn a ddiswyddir, mae angen rhoi’r mater mewn cyd-destun. Mae gan Ddyffryn Hafren gyfradd gweithgaredd economaidd uwch na chyfartaledd Powys a chyfartaledd Cymru. Mae ganddo gyfran uwch o’i weithlu yn ymwneud â gweithgynhyrchu nag un ai’r ffigur ar gyfer Cymru, na’r DG yn ei chyfanrwydd. Mae cwmnïau gweithgynhyrchu bach yn yr ardal yn parhau i edrych am lafur sgilgar. Ym mis Mawrth, y gyfradd diweithdra ar gyfer ardal y Drenewydd oedd 1.8%. 1.2% oedd yn y gyfradd yn ardal y Trallwng. 0.7% oedd yn ardal Llanidloes. Y gyfradd ar draws holl Sir Drefaldwyn oedd 1.4%.

12. Er y cyd-destun hwn, a’r WDA yn frwd i ymateb i ddatblygiadau lleol ac mae yn y broses o gynnull cynllun marchnata Dyffryn Hafren, a fydd yn cynnig Sir Drefaldwyn fel man delfrydol i fyw ac i fusnesau twf leoli ynddo.

## Goblygiadau Ariannol

13. Caiff y cynllun hwn ei gyflenwi o fewn ac wrth ochr cyllideb farchnata ranbarthol a chenedlaethol bresennol y WDA.

Gweithredu i’r Pwyllgor

Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried a rhoi sylw ar y papur hwn.

Dr Geraint Davies

Cyfarwyddydd Gweithredol

Rhanbarth y Canolbarth – Awdurdod Datblygu Cymru